# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12/10/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Denu Busnesau Newydd i Gymru

***12. David Melding:*** *Sut y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu denu busnesau newydd i Gymru. OAQ(3)3140(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn amlinellu swyddogaeth newydd ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn ei chyfanrwydd i greu'r amodau sy'n caniatáu i economi ddeinamig ffynnu. Bydd denu cyfleoedd busnes newydd i Gymru yn rhan hollbwysig o'r cyfeiriad newydd hwn.

*Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl.*

### Grant Bloc Cymru

***14. Leanne Wood:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch Grant Bloc Cymru 2011/12. OAQ(3)3147(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf i a'm cydweithiwr, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'n cymheiriaid yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ystod eang o faterion sy'n berthnasol i gyllideb bloc Cymru, yn arbennig pwysigrwydd sicrhau cyllid teg i Gymru.

*Tynnwyd cwestiwn 15 yn ôl.*